**Dr Richard Jones**
**Cyfarwyddwr Addysg**
**Director of Education**

**Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:**
Gwasanaeth Addysg / Education Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

*Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for: Education Welfare Service*

*Ffôn / Tel: 01597 826422*
*E-bost / Email: educationwelfare@powys.gov.uk*
*Eich cyf / Your ref:*
*Ein cyf / Our ref: Llythyr at Rieni a Gofalwyr 01.09.26*
*Dyddiad / Date: 01.09.26*

I rieni a gofalwyr

Annwyl riant / gofalwr,

**Croeso i flwyddyn academaidd newydd 2026–27: cefnogi presenoldeb da**

Wrth i ni ddechrau blwyddyn academaidd 2026–27, hoffwn estyn croeso cynnes i'r holl ddysgwyr, rhieni a gofalwyr. Gobeithiaf bod y flwyddyn i ddod yn un gadarnhaol, llwyddiannus a llawn cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc i ddysgu, datblygu a ffynnu.

Mae presenoldeb da yn un o'r sylfeini pwysicaf ar gyfer cynnydd addysgol, lles a llwyddiant yn y dyfodol. Pan fydd plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, maent yn fwy tebygol o gadw i fyny â dysgu, meithrin perthnasoedd cryf gyda staff a ffrindiau, cymryd rhan mewn bywyd ysgol ehangach a theimlo ymdeimlad cryfach o berthyn o fewn eu cymuned ysgol.

Mae pob diwrnod ysgol yn bwysig. Gall hyd yn oed absenoldeb achlysurol amharu ar arferion dysgu a'i gwneud hi'n anoddach i blant gynnal hyder a chynnydd. Gall sefydlu arferion presenoldeb da o ddechrau'r flwyddyn academaidd wneud gwahaniaeth sylweddol dros amser.

Rydym yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd mynychu'r ysgol yn anodd. Gall salwch, gorbryder, amgylchiadau teuluol, neu heriau eraill i gyd effeithio ar bresenoldeb. Os yw'ch plentyn yn profi unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol, cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl fel y gellir trafod cefnogaeth. Mae sgyrsiau cynnar yn aml yn helpu i atal pryderon rhag dod yn anoddach i'w datrys.

Mae gan ysgolion, teuluoedd a'r awdurdod lleol rôl bwysig wrth gefnogi presenoldeb da. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu cael mynediad at yr addysg, cyfeillgarwch a chyfleoedd ehangach y mae ganddynt hawl iddynt.

Powys

# Mae Pob Diwrnod Ysgol yn Bwysig: Canllaw ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026-27




**Adeiladu Ymdeimlad o Berthyn**
Mae presenoldeb rheolaidd yn cefnogi cynnydd addysgol, lles emosiynol, a llwyddiant yn y dyfodol.

**Cysondeb yw'r Allwedd**
Mae mynychu'r ysgol bob dydd yn helpu plant i adeiladu perthnasoedd cryf a theimlo'n rhan o'u cymuned.

**Cefnogaeth a Phartneriaeth**
Gall hyd yn oed absenoldeb achlysurol dorri ar draws arferion dysgu a niweidio hyder plentyn.

**Sefydlu Arferion Cadarnhaol**
Cefnogwch bresenoldeb rheolaidd trwy sicrhau bod plant yn cyrraedd ar amser ac osgoi gwyliau yn ystod y tymor.

**Mae Cyfathrebu Cynnar yn Hanfodol**
Cysylltwch â'r ysgol ar unwaith os yw rhwystrau fel gorbryder neu salwch yn effeithio ar bresenoldeb.

**Dull Cydweithredol**
Mae teuluoedd, ysgolion a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pob dysgwr yn ffynnu.

Gofynnwn i rieni a gofalwyr gefnogi presenoldeb rheolaidd trwy annog arferion cadarnhaol, sicrhau bod plant yn cyrraedd mewn pryd, osgoi gwyliau yn ystod y tymor lle bynnag y bo modd, a chadw mewn cysylltiad agos â'r ysgol os bydd unrhyw bryderon yn codi. Mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.




Diolch am weithio gydag ysgolion a'r awdurdod lleol i roi'r dechrau gorau posibl i bob dysgwr ym mlwyddyn academaidd 2026–27. Edrychwn ymlaen at gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy gydol y flwyddyn i ddod.

Yn gywir



**Dr Richard Jones**

**Cyfarwyddwr Addysg**
**Director of Education**